# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# BTEC Diploma Sylfaen Cenedlaethol mewn Chwaraeon Lefel 3



**Yn gryno**

Mae'r cwrs hwn yn canolbwyntio ar elfen ymarferol. Bydd y cwrs hwn yn eich helpu chi i ddatblygu eich gwybodaeth er mwyn dilyn gyrfa yn y maes hwn.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

...mae gennych ddiddordeb amlwg mewn chwaraeon ac iechyd corfforol

...rydych eisiau cwrs ymarferol

...rydych eisiau datblygu gwybodaeth er mwyn dilyn gyrfa yn y maes hwn

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Byddwch yn astudio modiwlau megis:

Anatomi a Ffisioleg mewn Chwaraeon


studentrecruitment@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Hyfforddi Ffitrwydd a Rhaglennu ar gyfer Iechyd, Chwaraeon a Llesiant
Datblygiad Proffesiynol yn y Diwydiant Chwaraeon
Arweinyddiaeth Chwaraeon
Trefnu Digwyddiadau Chwaraeon
Cynnal Profion Ffitrwydd
Perfformiad Chwaraeon Ymarferol
Hyfforddi ar gyfer Perfformiad
Dulliau ymchwil mewn Chwaraeon
Datblygu a Darparu Chwaraeon a Gweithgaredd Corfforol
Archwilio Busnes yn y Diwydiant Chwaraeon a Hamdden Actif
Caffael Sgiliau mewn Chwaraeon
Profiad Gwaith mewn Hamdden Actif
Rheoli Anafiadau Chwaraeon
Seicoleg Chwaraeon
Rheolau, Rheoliadau a Gweinyddu mewn Chwaraeon
Sgiliau Technegol a Thactegol mewn Chwaraeon
Dadansoddiad Perfformiad Chwaraeon
Egwyddorion ac Ymarferion ar gyfer Gweithgareddau Mentrus Awyr Agored
Cynaliadwyedd Amgylcheddol ar gyfer Gweithgareddau Mentrus Awyr Agored
Ymarfer Corff ar gyfer Grwpiau Penodol
Ymarfer Corff, Iechyd a Ffordd o Fyw
Materion Cyfredol mewn Chwaraeon
Rheoli Hamdden
Gweithrediadau Canolfan Hamdden

Byddwch yn cael y cyfle i astudio Tystysgrif mewn Arweinyddiaeth Chwaraeon a Thystysgrif mewn Hyfforddi Ffitrwydd.

Cewch eich asesu drwy amrywiaeth o aseiniadau ysgrifenedig ac ymarferol, tasgau a reolir, arholiad allanol, cyflwyniadau, portffolio o waith a goruchwyliaeth. Wedi i chi ei gwblhau, byddwch yn cyflawni:

Diploma Sylfaen Cenedlaethol Lefel 3 mewn Chwaraeon
Cymwysterau ategol priodol er mwyn ehangu eich set sgiliau a bodloni anghenion y diwydiant

Gweithgareddau Sgiliau
Mathemateg a Saesneg (os nad oes gennych Radd C neu uwch ar lefel TGAU)
Tystysgrif SLQ mewn Arweinyddiaeth Chwaraeon
Tystysgrif Lefel 2 YMCA mewn Hyfforddi Ffitrwydd

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I gofrestru, mae angen i chi fod ag o leiaf 5 TGAU Gradd C neu uwch, gan gynnwys un ai Mathemateg/Rhifedd neu Gymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg, neu gymhwyster Diploma Lefel 2 priodol ar Radd Teilyngdod gyda TGAU Gradd C neu uwch mewn un ai Mathemateg/Rhifedd neu Gymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg.

Mae cyfranogiad ymarferol yn hanfodol wrth gwblhau'r cwrs hwn. Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn angenrheidiol, yn ogystal â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd tuag at y pwnc â'r gallu i gymell eich hun.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd cwblhau'r Diploma Sylfaen Blwyddyn 1 yn llwyddiannus yn eich caniatáu i fynd ymlaen i'r ail flwyddyn a chwblhau'r Diploma Estynedig llawn.

Oddi yno, mae'r llwybrau dilyniant yn cynnwys cyrsiau ar lefel Prifysgol a chyflogaeth yn y diwydiant chwaraeon a hamdden e.e. hyfforddi cymunedol, y diwydiant ffitrwydd a datblygu chwaraeon.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae costau ychwanegol yn cynnwys hyd at £82.50 ar gyfer cit, £50.00 ar gyfer tripiau/Cofrestru gyda DofE/ffioedd Gwersylla DofE.

Bydd dysgwyr hefyd yn cael cyfle i ymgymryd ag ystod o deithiau a digwyddiadau addysgol e.e. Prifysgol Metropolitan Caerdydd - dosbarthiadau cryfder a chyflyru, Prifysgol De Cymru - profi ffitrwydd ac iechyd. Mae gan Barth Dysgu Blaenau Gwent amrywiaeth o dimau sy'n chwarae mewn ystod o gynghreiriau gan gynnwys rygbi, pêl-droed, pêl-rwyd a phêl-fasged.

Ar gyfer chwaraewyr Academi Rygbi Menywod y Dreigiau, mae eich amserlen wedi'i threfnu o amgylch Academi'r Dreigiau, ac rydych yn cael eich cludo o safle i safle er mwyn cymryd rhan yn y ddarpariaeth. Efallai y byddwch angen trefnu eich cludiant eich hun adref o Gampws Crosskeys ar gyfer rhai o'r gemau.

Mae gan bob dysgwr gyfle i wneud cais am gyllid Erasmus ac ymweld â gwlad Ewropeaidd fel rhan o'u hastudiaethau.